

# Porthmon Sir Benfro

## Briff ar gyfer artistiaid sy'n gweithio mewn delwedd symudol

### Cyflwyniad

Mae *Confluence*, mewn partneriaeth ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn gwahodd ceisiadau gan artistiaid sy'n gweithio yn y maes delweddau symudol i fynd i'r afael â chomisiwn i greu celfwaith sy'n ymgysylltu â'r cyhoedd, safle penodol neu ymatebol sy'n tynnu sylw at ac yn adlewyrchu ar y gydberthynas rhwng Hwlfordd, tref sirol hanesyddol a chanolbwynt marchnad Sir Benfro, a'r gefnwlad wledig ac arfordirol mae'n ei wasanaethu.

### Cefndir

Gwaith creadigol ar y cyd yw *Confluence* rhwng PLANED, *spacetocreate*, *iDeA Architects*, Cyngor Sir Penfro a Thrawsnewid Hwlfordd. Mae *Confluence* wedi derbyn cymorth ariannol gan Ideas:People:Places, menter strategol Cyngor Celfyddydau Cymru sy'n ceisio arbrofi gyda modelau newydd o adfywio a chydweithredu drwy'r celfyddydau. Wedi'i leoli yn Hwlfordd, mae'r cynllun tair blynedd yn darparu cyfres o gyfnodau hyfforddi a chomisiynau ochr yn ochr â labordy yn y dref - rhaglen esblygol o brosiectau arbrofol a chreadigol sy'n anelu at ddatblygu motelau arloesol o gydweithrediad, ymgysylltu â'r gymuned yn greadigol â chyfleoedd adfywio canol tref Hwlfordd, gan ganolbwyntio'n arbennig ar yr Afon Cleddau sy'n rhedeg drwy'r dref.

Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yw'r corff statudol sy'n gyfrifol am gadwraeth Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Mae'r Parc dan sylw yn cynnwys rhai o'r golygfeydd mwyaf trawiadol a'r amrywiaeth o fywyd gwyllt ym Mhrydain, yn cynnwys gwarchodfeydd natur o bwysigrwydd rhyngwladol, daeareg ac archaeoleg. Mae dyletswyddau Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn cynnwys cadw ac ehangu nodweddion naturiol y dirwedd hon, yn ogystal â diwylliant a threftadaeth y Parc.

### Y Comisiwn

#### Y Weledigaeth

Mae teitl y comisiwn *Porthmon Sir Benfro* yn cyfeirio at arferiad a fu o yrru anifeiliaid i'r farchnad ac ar hyd y llwybrau hanesyddol drwy Sir Benfro a gyrrwyd y gwartheg a'r da byw hyn i Hwlfordd, ac yna ymlaen i diroedd pori a marchnadoedd Lloegr.

Gan ystyried teitl y comisiwn fel trosiad, bydd yr artist yn ymgolli ei hunan o fewn lleoliad ac yn gweithio ar y cyd gyda phobl i gynhyrchu celfwaith sy'n ymateb i'r perthnasau a'r cysylltiadau, hanesyddol a/neu gyfoes, rhwng Hwlfordd a'i gefnwlad weledig ac arfordirol.

Bydd y comisiwn yn defnyddio dull o weithio â gwreiddiau yn y gymuned a mynd i'r afael ag arfer celfyddydol sy'n ymgysylltu'n gymdeithasol lle mae pobl a chyd-destunau cymdeithasol neu amgylcheddol a phryderon artistig ac esthetig yr artist yn dod at ei gilydd i archwilio, cyfnewid ac arbrofi'r naill i'r llall.

Bydd y gwaith gorffenedig yn cael ei gyflwyno yn y lle cyntaf yng nghanol tref Hwlfordd ym mis Gorffennaf 2016 gydag ail arddangosiad yng Nghanolfan Ymwelwyr Oriol y Parc yn Nhyddewi ym mis Medi 2016.

## **Rôl yr artist**

Bydd disgwyl i'r artist a benodir i dreulio o leiaf 45 diwrnod ar y prosiect.

Amcan y comisiwn yw:

- Creu celfwaith artistig rhagorol wedi'i wreiddio mewn ymgysylltu â'r cyhoedd ac sy'n fframio ac yn mynegi'r gydberthynas rhwng Hwlfordd a Pharc Cenedlaethol Arfordir Penfro.
- Cyrraedd cynulleidfa eang gan gynnwys y rhai hynny nad ydynt yn ymwneud â chelf gyfoes ac artistiaid ar hyn o bryd.
- Cyfrannu at amcan ehangach rhaglen *Confluence* i ysbrydoli cymunedau i ail ddychmygu eu hamgylchedd mewn modd creadigol a grymus.

Yn ogystal, disgwylir i'r artist:

- Ddarparu rhaglen y cytunwyd arni o ddigwyddiadau ymgysylltu â'r cyhoedd, megis sgwrs artistig.
- Ymgymryd â gwiriad DBS, os gofynnir, a gallu darparu tystiolaeth o yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus, cyn dechrau'r comisiwn.
- Cymryd rhan mewn cyfleoedd yn y wasg a marchnata yn ymwneud â'r comisiwn.
- Cytuno bod y gwaith yn cael ei ddogfennu at ddibenion hyrwyddo, gwerthuso ac archifol.
- Darparu adroddiadau rheolaidd ar gynnydd y comisiwn a mynychu cyfarfodydd fel bo angen.

## **Ansawdd artistig**

Mae'n rhaid i'r artist ddangos ymrwymiad at deilyngdod artistig o safon. Mae'r ansawdd a'r teilyngdod yn ymwneud ag arloesi, creadigrwydd, gweledigaeth, gwreiddioldeb a'r gallu i ddehongli a chyfathrebu syniadau, ynghyd â chynnal y safon uchaf posib wrth ddarparu pob agwedd o ddatblygiad a gwaith y comisiwn.

## **Amserlen**

Tachwedd 2015 – Gorffennaf 2016

## **Strwythur cytundeb ac adrodd**

Bydd yr artist yn cael ei gytundeb gan PLANED, ar ran consortiwm *Confluence*. Bydd Swyddog Datblygu'r Celfyddydau ar gyfer Cyngor Sir Penfro ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn gweithredu fel rheolwr y prosiect dynodedig yn gyfrifol am reoli'r comisiwn a chefnogi'r artist yn ystod y gwaith datblygu, cynhyrchu a gosod y gwaith.

## Hawlfraint

Bydd yr artist yn cadw hawlfraint o'r gwaith a'r holl atgynyrchiadau. Bydd *Confluence* yn meddu'r hawl i ddogfennu'r prosiect ar gyfer ei archifau a defnyddio delweddau o'r gwaith gorffenedig a'r gwaith ar y gweill at ddibenion cyhoeddusrwydd, gwerthuso ac archifol.

## Ffi a chyllideb

Cynigir ffi o £12,000 yn cynnwys TAW ar gyfer y comisiwn. Mae'r ffi'n gynhwysfawr o'r holl waith a ymgymerir, costau cynhyrchu, treuliau, llety a theithio.

## Y broses ymgeisio

Dylai'r ymgeiswyr ddarparu:

- Amlinelliad o'r cais ar gyfer y comisiwn. Dylai hwn gyflwyno'r syniadau cychwynol i'w datblygu yn ystod cyfnodau cynnar y comisiwn a sut fydd y broses greadigol yn ymgysylltu â'r cyhoedd
- Datganiad am eich arferiad, a sut mae'r comisiwn yn addas ar gyfer yr arfer hwn.
- Curriculum Vitae
- Ffilm 10 munud (ar y mwyaf). Dylai pob gwaith fod wedi'i rifo, yn cynnwys teitl, dyddiad, lleoliad, a'r comisiynwr (os yn berthnasol) neu linc i gwaith ar-lein.
- Cyllideb am y gwaith gyda dadansoddiad o'r ffioedd diffiniol, costau cynhyrchu a'r treuliau cysylltiedig
- Enw a manylion cyswllt dau ganolwr
- **Mae Sir Benfro yn sir wledig lle nad oes llawer o drafnidiaeth gyhoeddus. Bydd angen i'r ymgeiswyr ddangos parodrwydd i deithio yn ôl yr angen.**

## Dyddiad cau

Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw: 5pm, dydd Mercher, 14 Hydref 2015

Dylid cyflwyno'r ceisiadau i: [kate.wood@pembrokeshire.gov.uk](mailto:kate.wood@pembrokeshire.gov.uk)

## Dethol

Bydd y broses ddethol yn cael ei gwneud gan banel sy'n cynnwys cynrychiolwyr *Confluence* ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Dylai ymgeiswyr ddarparu digon o wybodaeth gyda'u cais er mwyn cynorthwyo gyda'r gwaith gwerthuso yn seiliedig ar y meini prawf canlynol:

criteria:

- Dealltwriaeth amlwg o'r briff
- Safon y gwaith
- Profiad blaenorol a medrusrwydd
- Y gallu i fynd i'r afael â'r comisiwn o fewn y terfynau amser arfaethedig

## Cymhwysedd

Mae *Confluence* wedi ymrwmo i gyfle cyfartal a bydd pob cais yn cael ei feirniadu yn unol â'r meini prawf uchod, yn gyfan gwbl ar sail teilyngdod, yn ddiragfarn.

## Cyfweliadau

Caiff yr artistiaid sy'n cyrraedd y rhestr fer eu gwahodd am gyfweliad yn Hwlfordd, ddydd Iau, 12 Tachwedd 2015

## Rhagor o wybodaeth

Os hoffech ragor o wybodaeth, cysylltwch â:  
Kate Wood, Swyddog Datblygu'r Celfyddydau

[Kate.wood@pembrokeshire.gov.uk](mailto:Kate.wood@pembrokeshire.gov.uk)

01437 720392

01437 776157

[www.thelabhverfordwest.org](http://www.thelabhverfordwest.org)

[www.pembrokeshirecoast.org.uk](http://www.pembrokeshirecoast.org.uk)

Os ystyrir *Confluence* i ymholiad gael effaith sylweddol ar y broses ymgeisio, hysbysir yr holl ymgeiswyr am yr ymholiad a'r ymatebiad.

 cONfluence

 Cyngor Celfyddydau Cymru  
Arts Council of Wales

 Hŷddir gan  
Llywodraeth Cymru  
Sponsored by  
Welsh Government

 Supported by  
The National Lottery®  
through the Arts Council of Wales

Cefnogwyd gan  
Y Loteri Genedlaethol  
trwy Gyngor Celfyddydau Cymru



Pars Cenedlaethol  
Arfordir Penfro  
Pembrokeshire Coast  
National Park

Oriel y Parc

Oriel Tirlun a Chanolfan Ymwelwyr, Tyddewi  
Landscape Gallery and Visitor Centre, St Davids